Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

17 Ionawr, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Rhagolwg o wariant 2024/25 Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer 2024/25.

1.2. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa ariannol yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Nodi a derbyn rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2024/25 fel y cyflwynir yn ***Atodiad 1***.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Nodi tanwariant net a ragwelir o £270,550 yn erbyn ei gyllideb yn 2024/25, sy'n bennaf oherwydd tanwariant ar y gyllideb staffio.

## 4. CEFNDIR A YSTYRIAETHAU PHERTHNASOL

4.1. Yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2024, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ei gyllideb ar gyfer 2024/25.

4.2. Rhagwelwyd sefyllfa alldro net yn adolygiad Awst 2024 yn danwariant o £203,923, ond mae hyn bellach wedi cynyddu i £270,550.

4.3. Bydd y gyllideb yn parhau i gael ei monitro a'i hadolygu drwy gydol y flwyddyn ariannol, a bydd yr adroddiad alldro yn ogystal â'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2024/25 yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar 23 Mai 2025.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

### 5.1. Rhagolwg o Wariant 2024/25 fesul pennawd

5.1.1. Mae **Atodiad 1** yn darparu dadansoddiad manwl o ragolygon gwariant fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.1.2. Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 yn danwariant o £270,550.

### Gweithwyr

5.1.3. Rhagwelir tanwariant o £311,057 ar y pennawd gweithwyr ar gyfer 2024/25.

5.1.4. Mae cyllideb y gweithwyr yn cynnwys Prif Weithredwr dros dro (2 ddiwrnod yr wythnos), Cynorthwyydd Personol (1 diwrnod yr wythnos), Rheolwr (Swyddogaethau Statudol), Rheolwr Prosiect (1 diwrnod yr wythnos), tair swydd Cynllunio ac un swydd Trafnidiaeth. Mae'r gwariant a ragwelir hyd at fis Mawrth 2025 yn cynnwys costau Prif Weithredwr dros dro (2 ddiwrnod yr wythnos), Cynorthwyydd Personol (un diwrnod yr wythnos), costau secondiad Rheolwr Rhaglen Weithredu o Lywodraeth Cymru, un swydd cynllunio (dyddiad cychwyn Ionawr 2025) yn ogystal â chostau Swyddog Iaith rhan amser.

5.1.5. Mae cost lwfans yr aelodau lleyg yn seiliedig ar i un cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael ei gynnal cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

### Teithio

5.1.6. Amcangyfrif mai cost y lwfans teithio hanfodol a chostau cynhaliaeth staff hyd at fis Mawrth 2025 yw £800, sy'n rhoi tanwariant o £5,200 ar y pennawd teithio yn 2024/25.

### Cyflenwadau a gwasanaethau

5.1.7. Rhagwelir gorwariant net o £18,019 yn erbyn y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau ar gyfer 2024/25. Mae'r pennawd ymgynghorwyr allanol yn dangos gorwariant o £53,001, ond mae £80,517 o'r gwariant hwn yn ymwneud â'r costau ymgynghori a ariennir o Grant Trafnidiaeth 2023/24, a dangosir yr incwm fel gwarged o dan yr incwm grant. Mae tanwariant o £43,800 ar y costau yswiriant ac mae hyn oherwydd bod polisi yswiriant dros dro mewn lle ar gyfer 2024/25, gyda'r polisi yswiriant llawn yn dechrau ym mis Ebrill 2025. Rhagwelir tanwariant o £16,100 ar gostau Archwilio Cymru ac mae hyn yn bennaf oherwydd mai Ffurflen Flynyddol yn hytrach na set lawn o gyfrifon sydd ei angen yn 2024/25, a hynny oherwydd nad yw'r trosiant yn uwch na'r trothwy o £2.5m.

### Gwasanaethau Cefnogol

5.1.8. Rhagwelir tanwariant o £22,463 ar y pennawd gwasanaethau cefnogol ar gyfer 2024/25. Mae'r tanwariant ar y pennawd cefnogaeth corfforaethol oherwydd gostyngiad yn nifer y cyfarfodydd ffurfiol yn ystod 2024/25. Bydd y tanwariant ar y pennawd cyfreithiol yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhan o'r gorwariant ar y costau cyfreithiol gan ymgynghorwyr allanol a ddangosir o dan y costau sefydlu.

### Costau sefydlu

5.1.9. Oherwydd yr oedi wrth drosglwyddo swyddogaethau'r Cynllun Twf i'r CBC a'r dyddiad trosglwyddo tebygol bellach yn 1 Ebrill 2025 yn hytrach nag 1 Tachwedd 2024, mae costau cyfreithiol ac ymgynghorydd allanol 2024/25 sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad wedi cynyddu o £186,162 yn adolygiad Awst i amcangyfrif o £266,706.

5.1.10. Mae'r gwariant o £131,707 ar gyfreithiol yn cynnwys costau cwmni cyfreithiol allanol yn ogystal â dau ymgynghorydd cyfreithiol sydd wedi'u comisiynu i ddarparu cyngor a chymorth arbenigol ar sefydlu'r CBC.

5.1.11. Mae'r £135,000 ar ymgynghorwyr allanol yn ymwneud â chostau rheoli prosiectau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r CBC.

Incwm

5.1.12. Roedd y CBC yn llwyddiannus yn ei gais i Lywodraeth Cymru am gyllid tuag at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a dyfarnwyd £125k yn 2023/24 a £100k arall yn 2024/25. Dangosir £180,517 o'r incwm grant hwn yn 2024/25, gyda £80,517 o'r cyllid incwm grant yn ariannu costau ymgynghorydd allanol a gomisiynwyd yn 2023/24 ond ni chwblhawyd y gwaith tan fis Ebrill 2024.

5.1.13. Yn dilyn cadarnhad yng Nghyllideb Hydref 2024 y bydd y rhaglen Parth Buddsoddi yn parhau ledled y DG, mae dogfennau'r Porth bellach yn cael eu paratoi gyda'r nod o gael yr holl gymeradwyaethau mewn lle i ddechrau ym mis Ebrill 2025. Mae dyraniad blynyddol o £640k i ariannu costau refeniw, a bydd traean o'r gyllideb hon yn cael ei dyrannu i'r CBC. Bydd yr hawliad cyntaf yn cynnwys £100k o gostau 2024/25, ac er bod Cynghorau Sir Wrecsam a Sir y Fflint rhyngddynt wedi gwarantu £50,000 o'r gwariant hwn, bydd cronfa wrth gefn y CBC yn cael ei defnyddio i ariannu'r gwariant hwn yn 2024/25, a bydd yn cael ei ad-dalu unwaith y bydd yr incwm grant wedi'i gymeradwyo gan y Llywodraeth.

5.1.14. Rhagwelir y bydd y llog ar falansau ar gyfer 2024/25 oddeutu £50k.

5.2. Cyfraniadau Awdurdodau Cyfansoddol

5.2.1. Cymeradwywyd yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2024/25 gan y CBC yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2024.

5.3 Cronfa wrth gefn

5.3.1. Disgwylir i'r balans wrth gefn ar 31 Mawrth 2025 fod yn £965k ac unwaith y bydd y £100k o'r Parth Buddsoddi yn cael ei ad-dalu, bydd y balans yn £1,065k.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae Prif Weithredwr dros dro y CBC yn ogystal â'r Swyddog Monitro wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Cyllideb Refeniw 2024/25 Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru – Adolygiad Rhagfyr 2024 |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.